

Llawdriniaeth â laser i ddargyfeirio rhydweiliau wedi'u rhwystro ac ymlediadau yn yr ymennydd heb atal y llif gwaed dros dro

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio techneg a gynorthwyir gan laser sy'n dargyfeirio rhydweiliau wedi'u rhwystro ac ymlediadau yn yr ymennydd heb atal y llif gwaed dros dro yn y GIG. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgôp i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio problemau gyda'r rhydweliâu sy'n cyflenwi'r ymennydd na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chynghor i chi. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth sy'n dweud pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon i drin rhydweliâu sydd wedi'u rhwystro neu sydd wedi chwyddo sy'n cyflenwi'r ymennydd, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â risgiau posibl y driniaeth. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd rhoi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Dylai tîm o feddygon, gan gynnwys niwrolawfeddyg a radiolegydd ag arbenigedd mewn trin cyflyrau niwrolegol benderfynu pa gleifion sydd fwyaf addas i'r driniaeth hon.

Efallai y bydd NICE yn edrych ar y driniaeth hon eto os daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg.

Llawdriniaeth â laser i ddargyfeirio rhydweliâu wedi'u rhwystro ac ymlediadau yn yr ymennydd heb atal y llif gwaed dros dro

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'anastomosis fasgwlaidd yr ymennydd a gynorthwyir gan laser heb achludiad rhydweliol arleisiol'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

*Efallai nad hon yw'r
unig driniaeth bosibl
ar gyfer dargyfeirio
rhydweliâu wedi'u
rhwystro ac
ymlediadau yn yr
ymennydd.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch p'un a
yw'n addas i chi a
pha opsiynau
triniaeth eraill sydd
ar gael.*

Yn achlysurol gall rhydweliâu yn yr ymennydd gulhau neu gael eu rhwystro. Gall y rhydweliâu hyn wanhau hefyd a chwyddo - gelwir hyn yn ymlediad. Gall rhwystrau ac ymlediadau'r rhydweliâu hyn achosi niwed difrifol i'r ymennydd pan effeithir ar y llif gwaed i'r ymennydd. Yn ddelfrydol caiff y nam ei drwsio heb effeithio ar y llif gwaed yn yr ymennydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn bosibl bob amser. Yn yr achosion hyn, un ffordd o gynnal y llif gwaed yw drwy ddefnyddio rhan ychwanegol o wythïen o ran arall o'r corff i gysylltu â'r rhydweli annormal y tu hwnt i fan y rhwystr neu'r ymlediad. Gelwir hyn yn llawdriniaeth ddargyfeiriol. Fel arfer yn ystod y driniaeth hon, mae angen atal y llif gwaed dros dro tra cysylltir y bibell newydd i'r rhydweli ymennydd a agorwyd. Fodd bynnag, gall atal y llif gwaed, hyd yn oed dros dro, roi'r claf mewn perygl o broblemau difrifol, yn cynnwys strôc a niwed i'r ymennydd.

Nod y driniaeth newydd yw cyflawni llawdriniaeth ddargyfeiriol heb atal y llif gwaed yn y rhydweli. Gwneir hyn drwy bwytho'r bibell newydd i wal rhydweli'r ymennydd heb ei agor gyda'r gwaed yn llifo drwyddo o hyd, a dim ond wedyn yr agorir y cysylltiad rhwng y pibelli gan ddefnyddio dyfais laser arbennig. Gall hyn leihau'r problemau posibl ar gyfer cleifion. Caiff y llawdriniaeth ei chynnal fel arfer o dan anesthetig cyffredinol.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi i ddargyfeirio rhydweliâu wedi'u rhwystro ac ymlediadau yn yr ymennydd, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau yn ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar bum astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 77 o gleifion ag ymlediadau rhydweli'r ymennydd, gweithiodd y driniaeth ym mhob un ond 2 o'r cleifion. Yn y 2 glaf hyn, ni ddatododd wal y rhydweli'n iawn o flaen y laser. Bu'n rhaid ailadrodd y driniaeth mewn 8 o gleifion hefyd oherwydd i geulad gwaed ddatblygu yn y rhydweli newydd. Mewn astudiaeth arall, gweithiodd y driniaeth mewn 10 allan o 11 o gleifion a gafodd y driniaeth i drin rhydweliâu wedi'u rhwystro.

Edrychodd dwy astudiaeth arall ar dros 100 o gleifion. Roedd tua 80 o'r cleifion hyn yn gallu cyflawni tasgau bob dydd ar ôl y driniaeth. Mewn un o'r astudiaethau hyn a edrychodd ar 34 o gleifion, ni phrofodd y rhan fwyaf o gleifion unrhyw ddirywiad yn eu gallu gwell i gyflawni tasgau bob dydd am dros dair blynedd ar ôl cyflawni'r llawdriniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gellir asesu llwyddiant yn driniaeth drwy edrych ar b'un a yw'r bibell newydd yn parhau i fod heb ei rhwystro ar ôl y driniaeth yn ogystal ag osgoi gwaedu yn ystod y llawdriniaeth.

Risgiau a phroblemau posibl

Edrychwyd ar nifer y marwolaethau ar ôl y driniaeth mewn pedair astudiaeth ar wahân. Tua mis ar ôl y driniaeth, bu farw cyfanswm o 6 allan o 127 o gleifion a gafodd y llawdriniaeth.

Mewn astudiaeth arall, cafodd 77 o gleifion y driniaeth i drin ymlediadau'r ymennydd. Digwyddodd niwed i'r ymennydd mewn 22 o gleifion ar ôl y driniaeth. Achoswyd y niwed hwn gan lif gwaed is mewn 16 o gleifion, gwaedu mewn 4 a phroblemau eraill mewn 2.

Nododd astudiaeth o 15 o gleifion a gafodd y driniaeth i drin rhydweliâu wedi'u rhwystro fod 3 o gleifion wedi cael strôc a achoswyd gan ymyriad yn llif y gwaed i'r ymennydd. Roedd gan ddau glaf broblemau lleferydd a gwendid ar ochr dde'r corff ar ôl y driniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr arbenigol fod y problemau posibl sy'n deillio o'r driniaeth hon yn cynnwys niwed i wal rhydweli'r ymennydd a'r bibell newydd yn gollwng.

Rhagor o wybodaeth am ymlediadau'r ymennydd a phroblemau eraill gyda rhydweliâu yn y pen

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn ymgynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut y mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'Anastomosis fasgwlaidd yr ymennydd a gynorthwyir gan laser heb achludiad rhydweliol arleisiol'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/guidance/HTG161

Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 a dyfynnwch y cyfeirnod N1544).

Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7810-6

N1544 1P Feb 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.